MORGAN, THOMAS ('Afanwyson '; 1850 - 1939), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, hanesydd, a llenor

Enw: Thomas Morgan
Ffugenw: Afanwyson
Dyddiad geni: 1850
Dyddiad marw: 1939
Rhiant: Jane Morgan
Rhiant: Walter Morgan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr, hanesydd, a llenor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Benjamin George Owens

Ganwyd yng Nghwmafan, 9 Mawrth 1850, yn fab i Walter a Jane Morgan ac yn nai i David Michael ('Dewi Afan '). Derbyniwyd i Goleg Pontyp l yn 1875 a'i ordeinio yng Nghaersalem, Dowlais, 1878. Symudodd yn 1895 i Ainon, Caerdydd, lle y dewiswyd ef gyda'r athro Thomas Powel i ad-drefnu llyfrgell Salisbury yng Ngholeg y Brifysgol yno. Oddi yno, yn 1900, aeth i Horeb, Sgiwen, lle yr arhosodd hyd ei ymddeol ar ben hanner canrif o weinidogaeth. Bu farw 27 Awst 1939. Bu'n amlwg ym mywyd ei enwad - yn llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru (1927), llywydd cymanfa dwyrain Morgannwg (1918), ac yn gydolygydd *Y Bedyddiwr Bach*, 1882, a'r *Heuwr*, 1890. Bu hefyd yn ysgrifennydd Cymdeithas Ddirwestol De Cymru am 30 mlynedd hyd 1920. Eithr cofir ef yn bennaf am y doreth o lyfrau a thraethodau eisteddfodol a gyhoeddodd, yn arbennig ei gasgliadau o enwau lleoedd a bywgraffiadau, megis *Cofiant y Parch. Nathaniel Thomas, Caerdydd*, 1900; *The Place-Names of Wales*, 1887, 1912; *Glamorganshire Place-Names*, 1901; *Enwogion Cymreig, 1700-1900*, 1907; *Cofiant y Parch. J. Rhys Morgan, D.D. ('Lleurwg')*, 1908 (gyda D. B. Richards); *Y Gwir Anrhydeddus D. Lloyd George, A.S.*, 1910; a *The Life and Work of the Rev. Thomas Thomas, D.D.*, 1925. Priododd ddwywaith, yr eiltro yn 1888 â merch D. Williams, gweinidog Salem, Meidrym, a ganed iddo ddau fab a thair merch.

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

Yr Hauwr misolyn Undeb Bedyddwyr Cymru at wasanaeth yr Ysgol Sabbathol, 1925, 121 (darlun)

Seren Gomer, 1927, 1 (darlun)

Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru, 1940

Seren Cymru, 6 a 13 Hydref 1939

NLW MSS 6743-4

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu